PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 16 | Ebrill 18, 2024 | 50c.

## Y Parchg Ivor Thomas Rees



Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth y Parchg Ivor Rees ar Sul y Pasg yn 93 blwydd oed. Cydymdeimlwn gyda'i deulu i gyd yn eu galar a'u hiraeth.

Magwyd Ivor yng Ngharmel, Treherbert, dan weinidogaeth y Parchedig Emrys Jones. Fe'i hyfforddwyd yng Ngholeg Aberhonddu a'i ordeinio yn Y Wern, Aberafan, ac yna symud i Clapham, Ewell, Trefansel a Rochdale. Wedi ymddeol symudasant i fyw i Abertawe. Bu'n weinidog ffyddlon dros y blynyddoedd gydag ymroddiad ecwmenaidd a diddordeb mawr yn yr eglwys fyd-eang. Coffa da amdano.

## Eirwen Ann Williams



Gyda'i hymddeoliad, ddiwedd mis Mawrth eleni, daeth tymor gwasanaeth Ann, fel yr Ysgrifennydd Gweinyddol i'w derfyn wedi mwy na chwarter canrif o wasanaeth ffyddlon a theyrngar i'r Undeb. Cychwynnodd ar ei gwaith yn 1998 yn yr hen Dŷ John Penri yn Heol Sant Helen wedi ei apwyntio bryd hynny i swydd newydd yr Ysgrifennydd Gweinyddol a thros y blynyddoedd bu'n ddiwyd a thrylwyr ei hymdrechion i gyfarfod â gofynion a chyfrifoldebau'i swydd gan sicrhau bod agweddau cyllidol, statudol a chyfreithiol yr Undeb yn ddiogel yn eu lle.

At hyn, bu'n barod iawn ei chyngor a'i chymorth i'r eglwysi, eu swyddogion a'u gweinidogion a'r cyfundebau gan ddod yn llais ac yn wyneb cyfeillgar, aeddfed a chadarn ei barn i laweroedd. Llwyddodd i loffa o ddogfennau deddfwriaethol, tu hwnt o gymhleth





a phenblethus i'r mwyafrif ohonom ganllawiau digon syml i weithredu'n ddiogel arnynt.

Y mae'r ffeiliau trwchus sy'n beichio silffoedd ei swyddfa'n brawf o waith hanner oes a mwy ac yn gofnod o hynt a helynt yr Undeb dros y cyfnod hwnnw a'r eglwysi, llawer ohonynt ar adeg dyngedfennol yn eu hanes.

### Chwithdod

Wrth golli Ann o Dŷ John Penri sylweddolwn gyda chwithdod ein bod yn cael ein hamddifadu o aelod staff hynod o brofiadol ym mywyd a gwaith yr Undeb, un yn meddu gwybodaeth arbenigol o weithdrefnau a strwythurau gweinyddol, ond yn fwy na dim, un sy'n adnabod pobl yr Undeb, Annibynwyr Cymru a thu hwnt yn dda iawn ac yn eu caru.

Ofer fydd troi at ddrws ei hystafell am gyfarwyddyd sydyn bellach, eto, cysur gwybod nad yw ond caniad ffôn i ffwrdd a thaith fach sionc yn y car i Dŷ John Penri.


Bu Ann yn gydweithiwr triw i bedwar ysgrifennydd cyffredinol: i Derwyn, Dewi, Geraint a minnau a'r pedwar ohonom, fel eraill o staff yr Undeb gafodd hi'n gydymaith yn ymwybodol o'n dyled iddi ac yn diolch amdani.

Pleser pur yw dymuno ymddeoliad llawn a hapus iddi a phob nerth ac iechyd i fwynhau seibiant cwbl haeddiannol.

**Dyfrig Rees**

# Syllu a dysgu ar y Gwyddelod

Iwerddon a Chymru, dwy wlad Geltaidd, yn draddodiadol dwy wlad Gristnogol ond un wedi bod yn drwm dan ddylanwad y ffydd Gatholig o ran ei chrefydd a'r llall wedi bod yn fwy dan ddylanwad y ffydd Brotestannaidd. Ac mae llawer i'w dysgu trwy ymgyfarwyddo â hanes Iwerddon a'i phobl. Yn nysgeidiaeth y Beibl lle cawn ddysgu am orchmynion ac ewyllys Duw fe ddysgir fod yna ymddygiadau a gweithredu yn hanes dynoliaeth sy'n annerbyniol i'w gweld ac na ddylent gael eu cysylltu â moesau ac ymddygiadau bywydau pobl Dduw a dilynwyr yr Arglwydd Iesu Grist. 'Gwrthodwch ymgysylltu â gweithredoedd y tywyllwch, ond yn hytrach dadlennwch eu drygioni. Gwarthus yw hyd yn oed crybwyll y pethau a wneir ganddynt yn y dirgel.' (Effesiaid 5:11–12) Ac nid yn unig yn y dirgel ond yn agored ac yn gyhoeddus hefyd. Y mae pethau felly yn hanes y Gwyddelod, neu eu gorthrymwyr yn hytrach, y dylem ddysgu oddi wrthynt. Yn yr ysgrif hon ceisiwn ddysgu oddi wrth hanesion o Iwerddon gan fod yn ddoethach wrth ystyried y term Saesneg 'beyond the pale' ac edrych ar yr hanes sy'n gefndir i'r emyn cyntefig 'Llurig Padrig'.




### 'Beyond the pale'

Idiom digon cyfarwydd yw 'beyond the pale' yn perthyn i'r iaith Saesneg ac a ddefnyddir o hyd mewn gwahanol ffyrdd ac ystyron. Golyga'r term yn gyffredinol ymddygiad annerbyniol na ellir dygymod ag ef na'i reoli ac sydd y tu hwnt i ymarweddiad gwaraidd. Mae beth y'ch chi'n gallu dygymod gydag ef neu ei reoli, wrth gwrs, yn gwahaniaethu ac yn dibynnu o ba gyfeiriad i chi'n dod at y mater dan sylw. Ond faint ohonom sy'n ymwybodol o darddiad yr ymadrodd 'beyond the pale'? Os wyf yn gywir cyfeiriwyd ato gyntaf yn hanes a diwylliant y Saeson yn Iwerddon a hynny o flaen oes y Tuduriaid.




### Coron Lloegr

Gwrthglawdd a ffos yn dynodi ffin ydoedd rhan o 'the Pale', tebyg o ran ei fwriad a'i arwyddocâd i Glawdd Offa rhwng Cymru a Lloegr. Adeiladwyd Clawdd Offa nid i amddiffyn yn gymaint ond i fod yn ffin rhwng y Saeson a'r Cymry. Ac yn Iwerddon amcan 'the Pale' a'i wrthglawdd oedd dynodi mai tiriogaeth y Sais oedd yr ardal o amgylch tref Dulyn. Erbyn diwedd y bymthegfed ganrif roedd Dulyn a'r wlad o'i hamgylch, megis trefedigaeth Brydeinig, wedi ei meddiannu gan goron Lloegr, yn cael ei thrawsnewid gan arferion y Saeson ac yn cael ei hamddiffyn ganddynt, a'r diriogaeth yma a oresgynnwyd yn gwahaniaethu yr ardal oddi wrth weddill gwlad Iwerddon i'r gorllewin, gogledd a de o'r dref, gwlad yr oedd y Sais yn ystyried ei phobl yn anwaraidd. Anwaraidd y dylid ei bwysleisio ym meddwl Saeson y cyfnod, yn yr ystyr fod bywydau y Gwyddelod mor wahanol i fywyd, diwylliant ac arferion y Saeson oedd yn byw, neu i fyw yn Nulyn yn unol â chyfraith a choron Lloegr. Ym meddwl y Saeson roedd bywyd y Gwyddelod 'beyond the pale.' Roedd rhaid ymwrthod a'r fath anwarineb a barbareiddiwch felly codwyd y clawdd amddiffyn. Perthyn i'r gorffennol, diolch byth, y mae'r 'Pale', dim ond bod rhywfaint o olion y clawdd a'r ffos o ddiwedd y bymthegfed ganrif ymlaen, fel olion Clawdd Offa heddiw, yn dal i'w gweld mewn mannau, megis yn Clongowes, sydd rhyw ugain milltir i'r gorllewin o Ddulyn.

I ninnau Gymry gwladgarol a chenedlaetholgar, megis ein cefndryd y Gwyddelod yn Iwerddon heddiw, mae yr hyn a ystyriai'r Saeson yn y cyfnod – pan oeddent yn darostwng eu gwlad, ei meddiannu a'i gwladoli, gan ddwyn ei thiroedd a'i chyfoeth – yn gwbl annerbyniol. Dyma fyddai llawer ohonom heddiw yn ei ystyried fel ymddygiad anwaraidd ac ie, 'beyond the pale'.

**Emyr Gwyn Evans**

*[Bydd yr ail ran o'r erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst*]*

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2024

**Prifysgol De Cymru, Trefforest**
**11–13 Gorffennaf**

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

## Gweinidogaeth

Rydym yn chwilio am weinidog rhan-amser i weinidogaethu ar gapeli Providence, Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych.

Derbynnir ceisiadau drwy law Mrs Jennifer Hughes, Efail Newydd, Llangadog, Sir Gâr SA19 9BU
neu drwy e-bost:
jen60@hotmail.co.uk

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 18 2024 RHIF 164

# ‘Am fod y Pasg werth ei ddathlu’




**Ar fore Sul y Pasg ar gae rygbi Blaenau Ffestiniog fe gafwyd diwrnod llawn hwyl wedi ei gynnig gan gymuned Gristnogol newydd Craig Blaenau i drigolion yr ardal.**

Meddai Jos Edwards ar ran y rhai oedd yn trefnu:

‘Gwych oedd gweld cymaint o blant a theuluoedd yn cael amser mor dda! Roedd yna bum cant wedi dod. Roedd yna ddigon o fwyd i fwydo tua 350 wedi ei brynu mewn ffydd ac ar sail ein profiad yn trefnu digwyddiad tebyg y llynedd a’r cyfleoedd a gafwyd i weithio yn y gymuned ar hyd y flwyddyn. Fe gafodd pawb rywfaint ac fe aeth y cyfan ohono. Ynghanol y gweithgareddau i gyd roedd hi’n fraint cael rhannu neges o fywyd newydd y Pasg a chael bendithio’r gymuned fel hyn.

‘Cynigiwyd y cyfan am ddim oherwydd bod Sul y Pasg yn diwrnod MOR anhygoel ac yn werth ei ddathlu – roeddem ni am i bawb gael profi hynny! Diolch i bawb a ddaeth, i’r tîm i gyd am helpu ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y digwyddiad. Ond mae’r diolch mwyaf i’r Arglwydd am reswm mor gryf i ddathlu’r Pasg – ei groes a’i atgyfodiad er ein mwyn.’

Mae Jos a Lydia Edwards yn derbyn nawdd tuag at y genhadaeth hon drwy gynllun arloesi Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd.

Roedd y digwyddiad a’r ymateb i’r gwaith sydd wedi bod yn digwydd yn enw Craig Blaenau hyd yma yn cadarnhau’r angen a’r alwad i gynnig addoliad cyson yn y dref. Bydd ‘Capel Craig’, gwasanaeth teuluol newydd, yn cael ei lansio yn mis Mai yn y clwb rygbi. Dymunwn fendith y nef iddynt yn y fenter hon.

*(Gol. HP-D)*



CAPEL BETHEL, TAL-Y-BONT

## CYMANFA GANU

Unedig Gogledd Ceredigion

Dydd Sul 28 Ebrill am 10 a 5.30

Arweinydd y bore:
Mrs Helen Medi Williams

Arweinydd yr hwyr:
Mrs Delyth Hopkins Evans

Oedfa’r bore gyda
Theulu MacDonald, Patagonia

# 'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod'

Rwy'n un o'r bobl hynny sydd wedi fy mendithio â chyflwr sy'n peri fy mod angen sbectol i weld pethau yn agos, gyda lensys biffocal go drwchus. Hebddyn nhw dwi fawr o iws i fi fy hun na neb arall, deud y gwir. Ond plws arall i hyn yw fy mod yn gallu gweld ymhell i'r gorwel. Does dim yn well na gallu gwneud hynny wrth grwydro yn yr awyr agored a chanfod rhyfeddodau o'm cwmpas ymhobman. Heb y sbectol dwi'n gweld fawr ddim yn eglur – ond gyda nhw mae popeth i'w weld yn glir.

Cefais sgwrs ddifyr yn ddiweddar ynglŷn â'n cyflwr ysbrydol yma ym Môn, yn wyneb y ffaith fod yna'r fath ddirywiad ar droed sy'n carlamu bellach. Cofiwch chi, tydi cydnabod hynny ddim yn rhywbeth newydd gan fod y peth yn fwy cyffredin ar draws yr enwadau nag yr hoffwn ei gydnabod yn aml iawn. Ydw i'n swnio'n ddigalon? Wel, nac ydw, a deud y gwir, oherwydd fe gafodd yr hyn sydd wedi dod i fwcl ei ddargogan wrth griw o ddarpar weinidogion gan yr annwyl Barchedig Tom Nefyn Williams, bron ganrif yn ôl erbyn hyn. Dywedodd wrthyn nhw mewn seiat *pastoralia* y gwelent ddirywiad enfawr mewn aelodaeth a phresenoldeb ar y Sul yn ystod eu cyfnod hwy o wasanaethu. Bellach y mae'r peth yn ffaith.

Yn ystod y degawdau diwethaf rydym fel enwadau, am resymau trefniadol, ariannol ac o safbwynt stiwardiaeth Gristnogol, wedi penderfynu cael gwared o'n hasedau o sawl ffenest siop. Gwelsom ddod ag addysg drwy ein colegau diwinyddol i ben neu'n cael ei throsglwyddo i golegau eraill. Gwelsom ollwng gafael i raddau ar leoliadau arbennig megis Coleg Trefeca. Mae'r un peth yn bosib o safbwynt Coleg y Bala, er nad oes neb ohonom ar lawr daear yn gwybod ar wahân i'r rywrai beth fydd tynged y lle arbennig hwnnw gyda hyn. Y gwir yw fod yn rhaid torri'r brethyn yn ôl y galw, a does gan y sefydliadau hyn mwy nag unrhyw gapel warant dwyfol i barhau am byth! Tebyg eich bod chi'n synnu braidd wrth fy nghlywed i'n dweud hynny, fel cyn-Gaplan / Swyddog Ieuenctid i'r Cyfundeb. Ond dyna realiti ein sefyllfa erbyn hyn.

Rwy'n casáu'r gair 'cyn …' yma ym mherthynas rhai sydd wedi derbyn galwad i wasanaethu Crist, boed mewn unrhyw weinidogaeth – lleyg neu ordeiniedig. Mae'n awgrymu fod yna ryw *pecking order* ym mêr esgyrn ac enaid ein henwadau, jest i atgoffa pobl o'u lle yn y drefn seciwlar eglwysig. Os ydan ni wedi ein hordeinio am oes, gan mai dyna a ddywedwyd wrthon ni, sut medrwn ni fod yn 'gyn' ddim byd yng ngolwg Crist?

Beth bynnag, gobeithiaf i chi fwynhau dathliadau'r Pasg eleni, lle bynnag yr oeddech yn dathlu – adre yn eich gofalaeth neu mewn gŵyl Gristnogol, boed ymysg dau neu dri, neu rai cannoedd. Gobeithio i chi deimlo presenoldeb Crist yn eich plith oherwydd, beth bynnag fo'n cyflwr ni ar lawr daear, mae'r Pasg yn ein hatgoffa'n drawiadol iawn fod Crist yn wir gyda ni, yn ein gwendid a'n llwyddiannau, ac mai ein priod ddyletswydd yw gwneud popeth posib i'w blesio fel ein Harglwydd byw.



Credaf yn y Crist sy'n barod i argymell ffordd newydd inni – ar yr aelwyd, ar ein haelwyd ysbrydol ac yn ein lleoliadau gwaith a hamdden. Hynny yw, mae'r Crist cyflawn eisiau i ninnau fod yn Gristnogion cyflawn. Cyflawn a chrwn – nid hunangyfiawn ac unllygeidiog, gan y gall hunangyfiawnder mewn arweinyddion eglwysig fod yn bechod dinistriol ac yn faen tramgwydd i unrhyw newid.

Credaf fod Crist yn barod i'n hargyhoeddi eto fyth o werth ein cenadaethau yn lleol a'n galwadau i wasanaethu yn y deyrnas. Rydym yn ein cael ein hunain yn gwasanaethu mewn cyfnod lle nad yw Duw yn cyfrif ryw lawer ym meddyliau pobl. Mae'r rhan fwyaf o bobl, gan gynnwys amryw o fewn ein cynulleidfaoedd, yn amharod i gael eu hargyhoeddi o werth gweinidogaeth Crist ac aberth y groes a'r atgyfodiad iddyn nhw.

Credaf fod Crist yn barod i'n cynghori. Un llinyn arian sy'n rhedeg drwy'r Efengylau a'r Epistolau yw'r geiriau, 'Y sawl sydd â chlustiau ganddo, gwrandawed beth y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr eglwysi' (Datguddiad 2:7). Trwy gydol yr Epistolau rhoddir cyfarwyddiadau i eglwysi unigol ynglŷn â'r newidiadau sydd angen eu gwneud i'r eglwys honno fyw a chenhadu'n effeithiol. Wrth inni ddod at ein gilydd i addoli a thystiolaethu, gweddïo a moli Duw, cawn deimlo Duw yn agos, Iesu yn gwmni a'r ysbryd yn cyffwrdd ein calonnau – ein cyffwrdd fel teulu Duw ac fel unigolion.

Credaf hefyd yn y Crist sy'n barod i gysuro a chanmol. Droeon yn yr Efengylau clywn Iesu yn cynghori ei ddisgyblion i fod â ffydd yn eu cenhadaeth, a pheidio â chael eu llethu gan broblemau, rhwystredigaethau ac anawsterau. Ceisiodd eu harghyhoeddi mai bywyd buddugoliaethus yw ein bywyd yn y ffydd. Ond fe aeth yn bellach na hynny hyd yn oed; ceisiodd eu cysuro â gobaith pe baent yn gorfod wynebu marwolaeth neu farw heb weld gogoniant Duw ar waith yn eu gwlad. Trwy ei farw ar y groes a'i atgyfodiad anhygoel, cawn ninnau fel hwythau ein hargyhoeddi ym modolaeth y bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu ynddo.

Sut bynnag y bydd pethau, bydd Iesu gyda ni i'n harwain a'n tywys – weithiau'n canmol, dro arall yn ceryddu – a'r cyfan mewn cariad. Addawodd fod gyda ni ar hyd y daith, pan fo'r eglwysi'n mwynhau'r heulwen neu'n cuddio yn y cysgodion. Bydd gyda ni yn ein cryfder a'n gwendid, yn wyneb pob her ac ar flaen y gad ym mhob menter newydd.

Rhywbeth gwerthfawr tu hwnt yw addewid Iesu y bydd gyda ni bob amser. Nid rhyw ffics y funud mohono i'n bodloni gyda'r *status quo* na magu cydwybod di-hid yn wyneb dirywiad crefyddol. Rydw i'n argyhoeddiedig o'r alwad sydd arnom i'n rhoi ein hunain heb ddal dim yn ôl yn ein haddoliad a'n gwasanaeth i Dduw. Felly, yng ngeiriau cyfeithiad W. Rhys Nicholas o waith J. S. B. Monsell:


Rhed yrfa gref drwy ras y Nef,
Cod olwg fry i'w weled ef;
Bywyd a'i her sydd iti'n dod
Crist yw y ffordd a Christ yw'r nod!

Ble rois i'r sbectol yna cyn mynd i glwydo neithiwr? O ie, dyma hi – gwydrau fy Ngwaredwr! Mi fedra i weld yn llawer pellach eto heddiw, gobeithio. Ond biti garw na allwn i weld y tu hwnt i'r gorwel. Da bo'ch!

*Jim Clarke*
*Llanfair-pwll*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 21**
**Rhannu'r Gair ag eraill**

### Darlleniad: Nehemeia 8: 9–12
'Buont yn sefyll yn eu lle am deirawr yn darllen o lyfr cyfraith yr Arglwydd eu Duw.' (Nehemeia 9:3)

### Gweddi
Diolch, Arglwydd, am y fraint o fedru darllen, ac am y cyfle i ddarllen dy Air yn ein hiaith ein hunain. Yn ein myfyrdod heddiw, diolchwn am waith yr eglwys yn trosglwyddo'r testun Beiblaidd mewn ieithoedd a chyfryngau cyfaddas â gofyn pobl. Helpa ni i fod yn gefnogwyr da ac yn gyflwynwyr effeithiol o'th wirionedd di i eraill. Amen.

### Cyflwyniad
Rhan o waith amlwg pob eglwys yw tynnu sylw at y Beibl a chyflwyno neges y Beibl i bob llwyth, gwlad ac iaith. Bu Cymru yn ffodus fod yr ysgrythur wedi cael ei chyfieithu i'r Gymraeg gan fawrion ymroddedig fel William Salesbury a William Morgan, a byddwn yn cofio gwaith y cyfieithwyr a'r esbonwyr hyd at heddiw. Pan ddarllenodd Esra yr ysgrythur Iddewig i'r genedl oedd wedi dychwelyd o Fabilon yn y bumed ganrif cyn Crist, cafwyd effaith chwyldroadol ar y genedl honno. Ceir llu o hanesion am Air Duw yn dwyn pobl i feddwl o ddifrif am eu bywydau eu hunain a'u diffyg perthynas â Duw. Roedd y genedl wedi colli sylwedd ei hunaniaeth, yn wleidyddol ac yn grefyddol. Ar ôl y profiadau trawmatig yn yr Aifft, wrth ddychwelyd i Jerwsalem, roedd angen deffroad ysbrydol arnynt.

Cofir am effaith tystiolaeth Philip ar yr eunuch yn yr anialwch (Actau 8), ac mae pobl fel John Wesley a William Williams, Pantycelyn, yn enghreifftiau o bobl a gafodd dröedigaeth neu adnewyddiad ffydd wrth wrando ar bregethu'r Gair. Cred a phrofiad yr eglwys yw fod clywed y Gair yn cael ei ddarllen a'i gyhoeddi yn chwyldroi person fel ei fod yn edrych at Grist ac yn profi bywyd newydd.

### Myfyrdod
Bydd darllen llenyddiaeth Cymdeithas y Beibl yn sôn am enghreifftiau cyfoes o ddiwygiadau. Pobl a dderbyniodd gopïau o'r Beibl yn eu hiaith chwarter canrif yn ôl yw trigolion Swaziland, gwlad yn ne-ddwyrain cyfandir yr Affrig sy'n ffinio â De'r Affrig a Mozambique. Cenedl fechan yw hon gyda 1.2 miliwn o bobl. Mae 85% ohonynt yn Gristnogion a thraean o'r boblogaeth yn ennill llai na phunt y dydd. Mesur o'i harswyd yw fod chwarter ei hoedolion yn byw gyda HIV a bod chwarter y plant o dan 17 oed yn amddifad.

Dyfynnir Albert, gŵr 54 oed a dderbyniodd Feibl yn 2016, yn dweud, 'Rwy'n byw am fod yr Arglwydd gyda mi, a phan ddarllenaf y Beibl hwn bydd fy enaid yn cael ei adnewyddu.'

Ar yr un daflen sonnir am greu fideo o hanesion Beiblaidd ar ffurf arwyddo ar gyfer y byddar. Dywedir gan Gymdeithas y Beibl fod hyn yn costio £900 y stori. Efallai y gallai eglwys roi nod iddi ei hun i ariannu hyn yng nghorff blwyddyn a'i alw yn 'Air ar waith'.

Mae'r Beibl yn ffynhonnell gobaith iddynt ac apêl Cymdeithas y Beibl yw fod y sawl sy'n berchen ar Feiblau ac yn rhydd i addoli fel y mynnont yn estyn rhodd i gynorthwyo'r mentrau hyn sy'n dod â Gair Duw yn fyw i drigolion gwledydd fel Swaziland. Tybed a ydym ni'n darllen y Beibl yn gyson gan ofyn beth mae Duw yn ei ddweud wrthym? Nid mater o ddarllen yn unig ydyw ond agor ein heneidiau ein hunain i wrando ar Dduw yn siarad â ni.

### Gweddi
Diolch, nefol Dad, am Gymdeithas y Beibl a'i gwaith chwyldroadol. Deisyfwn y bydd yn parhau i drosglwyddo'r Efengyl i iaith y gwledydd llai er mwyn iddynt brofi rhyfeddod dy wahoddiad i bobl gredu yn Iesu a'i fyw bob dydd. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Roedd cynulleidfa Esra yn wylo a galaru. Beth oedd achos eu galar, a sut byddwn yn disgrifio'r profiad?
2. Os yw gwacter yn disgrifio un wedd ar alar, sut mae darllen Gair Duw yn helpu?
3. Adfer Jerwsalem oedd nod Esra a Nehemeia. Ai adfer ddoe neu adeiladu i'r dyfodol oedd yn bwysig iddynt?
4. Pa mor aml fyddwn ni'n darllen ein Beiblau, a beth fydd ei effaith arnom ni?
5. A fyddwn yn trysori'r Beibl fel gwnaeth Mari Jones ac Albert, sydd bellach yn 60 oed?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 21 Ebrill am 7.30yh – Mwynder Maldwyn**
Bydd Nia Roberts yn sir Drefaldwyn i ddysgu mwy am y paratoadau at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng nghwmni Beryl Vaughan. Cawn fwynhau gwledd o ganu mawl o gymanfa gyhoeddi'r ŵyl yng Nghapel Heol China, Llanidloes.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 21 Ebrill, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Emlyn Davies, Pentyrch

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 21 Ebrill, am 12yp**
Oedfa dan ofal Heulwen Davies, Llanelli

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Capel Rhyd-y-main

Mae'r rhai ohonom sy'n aelodau mewn eglwysi gwledig yn cyplysu'r Ŵyl Ddiolchgarwch â mis Hydref, ond ar brynhawn o wanwyn yng nghapel Rhyd-y-main, cawsom gyfarfod diolchgarwch i gydnabod cyfraniad dau o'n haelodau i waith yr eglwys.

Ddiwedd Rhagfyr 2023, ymddeolodd Trebor Roberts, ein hysgrifennydd ers ugain mlynedd, o'i swydd. Yr un pryd, amlygwyd y ffaith ei fod hefyd wedi bod yn ddiacon ers hanner cant a thair o flynyddoedd. Yn ogystal, cawsom gyfle i dalu gwrogaeth i Annwen, ei wraig, sydd yn ogystal â bod yn gefn i Trebor, wedi gweithio'n ddygn yn y cefndir gan gyflawni llawer o waith ymarferol heb erioed dynnu unrhyw sylw personol at ei gweithredoedd. Diolch i'r ddau.

Ar derfyn yr oedfa a oedd dan ofal y Parchg Patrick Slattery, cyflwynwyd englyn i Trebor o waith un o'n cyn-aelodau, sef Iwan Bryn James, sydd bellach yn byw yn Aberystwyth.

**Cyflwynedig i Trebor Roberts ar ei ymddeoliad fel Ysgrifennydd, eglwys Rhyd-y-main, 17 Mawrth 2024**

Fugail gweithgar yr Aran, – yn dy oes
Cedwaist wal ein corlan;
Yn was triw, fe wnest dy ran;
Ag afiaith, rhoist dy gyfan.

Iwan Bryn



*Trebor ac Annwen Roberts*



*Pedair cenhedlaeth. Trebor ac Annwen Roberts gyda'u hwyres, Caryl, eu gor-wyres, Gwenlli Arwel, eu merch, Ann, a'u mab, Emlyn*

## ✦ENCIL I WEINIDOGION✦

**Ebrill 18-19 yn Nant Gwrtheyrn**

**Thema'r Encil:**
"Dyma'r Arglwydd yn dweud wrth Abram, 'Dwi am i ti...'" (Genesis 12:1).
Beth yw Gair yr Arglwydd i Gymru heddiw? Beth mae'r Arglwydd yn ein galw ni i'w gyflawni?

**Dydd Iau, Ebrill 18**

| | |
|---|---|
| 3:00 | **Te / Coffi a Chofrestru** |
| 3:30 | **Oedfa Agoriadol**<br>Parchg Jill-Hailey Harries |
| 4:00 | **Astudiaeth Feiblaidd: Genesis 12:1-9**<br>Yr Athro Emeritws Eryl Wyn Davies |
| 5:00 | **Amser rhydd a threfnu llety** |
| 6:00 | **Swper** |
| 7:30 | **Darlith Goffa Dr. Pennar Davies a Dr. Tudur Jones**<br>Parchg Ddr Alun Tudur |

**Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru, cysylltwch â'r Parchg Carwyn Siddall,**
***Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau***

**Dydd Gwener, Ebrill 19**

| | |
|---|---|
| 7:00 | **Epilog a Gweddi ar y traeth *(Dewisiol)***<br>Parchg Dylan Rhys Parry |
| 8:00 | **Brecwast** |
| 9:30 | **Gwibdaith i Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr**<br>**Defosiwn a Chyflwyniad: Tystiolaeth y Saint – Ymateb i'r alwad**<br>Parchg Canon Ddr Rosie Dymond a'r Parchg Selwyn Griffith |
| 10:45 | **Te / Coffi yn y Nant** |
| 11:15 | **Duw'n arwain yr eglwysi yn yr 20G. Y llwyddiannau a'r methiannau**<br>Parchg Ddr Siôn Aled |
| 12:00 | **Seminar. Ein Dealltwriaeth o Genhadu ac Efengylu**<br>Parchg Ddr Alun Tudur |
| 12:45 | **Cinio** |
| 1:30 | **Panel Holi dan arweiniad Alun Lenny** |
| 3:00 | **Oedfa i Gloi**<br>Parchg Glenys Jones |



# GOBAITH Y PASG YNG NGHANOL YR ARSWYD

Yn ei neges ar gyfer y Pasg dywedodd Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg bod y gwrthdaro presennol yng ngwlad Iesu gynt yn deillio o gyfnod y Cymro David Lloyd George, y prif weinidog a fu'n flaenllaw yn y broses o sefydlu'r wladwriaeth Iddewig. Ychwanegodd y Parchedig Jeff Williams y byddai'n cymryd gwyrth debyg i'r Pasg i ddatrys yr elyniaeth bresennol rhwng pobl Palesteina ac Israel:



Wrth i ni edrych mewn arswyd ar wrthdaro'r Pasg hwn yn Gaza, lle'r ymwelais fy hun ddwywaith o'r blaen, dylem gofio gwers hanes a'r cysylltiad Cymreig. Ganrif yn ôl, bu David Lloyd George yn flaenllaw yn y broses o sicrhau 'cartref cenedlaethol' Iddewig ym Mhalesteina, a reolwyd bryd hynny gan Brydain, heb fawr o ystyriaeth i'r Palestiniaid a oedd yn byw yno.

Yn y blynyddoedd ers hynny, gyrrwyd cannoedd o filoedd o Balestiniaid o'u cartrefi i fod yn ffoaduriaid yn Gaza a'r Llain Orllewinol. O ystyried y gwrthdaro presennol yn benodol, byddai'n cymryd gwyrth i ddatrys yr elyniaeth hir yma.

Ond mae'r Pasg yn ein hatgoffa ni bod gwyrthiau'n medru digwydd. Mae'r Bedd Gwag yn arwydd tragwyddol o'r cariad dwyfol a all oresgyn gwrthdaro a marwolaeth, tor calon ac anobaith, yn ein bywydau personol ac yn y byd. Gweddïwn am y wyrth y Pasg hwn.

# Barn Annibynnol

## ‘Dyn a chreadur – perthynas iach?’

Wynebwn ddewisiadau moesol o hyd. Prynu bwnsied o fananas yr archfarchnad neu’r bananas Masnach Deg sy’n costio ceiniog neu ddwy yn fwy?

Mae dewisiadau moesol i’w cael hefyd yn ein perthynas â byd naturiol planhigion ac anifeiliaid. Darllenais yn ddiweddar am un enghraifft sy’n peri penbleth go iawn. Yng ngogledd orllewin yr Unol Daleithiau a gorllewin Canada mae un rhywogaeth boblogaidd o dylluan ar ddibyn diflaniad. Bu’r dylluan smotiog [*spotted owl*] yn mwynhau statws arbennig fel symbol o hunaniaeth y rhanbarth. Ond erbyn hyn aeth yr aderyn yn beryglus o brin.

### Difodiant?

Un rheswm am hyn yw canlyniadau ffordd pobol o fyw – datblygu trefol, torri coedwigoedd, tanau gwyllt. Ond rheswm arall yw ymlediad cefnder y cyfaill smotiog o ddwyrain y cyfandir, sef y dylluan fraith [*barred owl*]. Mae hwn yn fwy o faint, yn hela amrywiaeth ehangach o brae ac yn bridio’n gyflymach. Mae’n dwyn cynefinoedd y dylluan frodorol a’i gwthio dros y dibyn. Bellach mae gan Wasanaeth Pysgod a Bywyd Gwyllt yr UDA gynllun i achub y dylluan smotiog rhag difodiant. Golyga hyn lladd cannoedd o filoedd [!] o’r dylluan fraith i greu lle i’w gefnder smotiog adennill tir.

### Dilema

A dyna’r dilema. Allwn ni gyfiawnhau difa niferoedd syfrdanol o anifeiliaid iach er mwyn cadw rhywogaeth arall yn fyw? Neu a ddylid gadael i brosesau natur redeg eu cwrs? Prin byddai’r amaethwr yn petruso eiliad cyn ateb. Wrth gwrs ceir saethu’r cadno er mwyn diogelwch yr ieir. Tebyg iawn hefyd y byddai llawer i ffermwr o blaid difa pob mochyn daear er mwyn amddiffyn y fuches rhag y diciâu. Ond gallwn ddadlau bod anifail dof sydd o fudd i’r ddynolryw yn rhan o deulu dyn, felly amddiffyn ein hunain yr ’yn ni fan hyn. Oes gennyn ni hawl i ymyrryd yn llanw a thrai naturiol y cread a phenderfynu pa rywogaethau gaiff fyw a pha rai sydd heb ddyfodol?

Wel, dyna ry’n ni wedi’i wneud erioed trwy hela rhai creaduriaid hyd yr olaf un. Pan gyrhaeddodd y Maori cynta Seland Newydd yn y 13eg ganrif roedd rhwng un a dau filiwn o adar enfawr y moa i’w cael yno. O fewn rhyw ganrif roedd y newydd-ddyfodiaid wedi lladd pob un ohonyn nhw ar gyfer bwyd. A beth oedd tynged y mamoth a’r elc Gwyddelig yma ar dir Ewrop?

### Fandaliaeth ecolegol

Ry’n ni’n parhau i wasgu rhywogaethau di-ri hyd at eu difodiant ar draws y ddaear, yn fwriadol neu beidio. Yn y môr o amgylch Ynysoedd Prydain mae niferoedd y penfras a’r macrell yn cyflym ddisgyn oherwydd gorbysgota. Dinistriwn goedydd sydd yn gartref hanfodol i famaliaid ac adar. Mae effeithiau cynhesu byd-eang yn fygythiad cynyddol, yn enwedig i greaduriaid y ddau begwn. Nododd adroddiad diweddar y bydd 80% o boblogaethau pengwinod wedi diflannu erbyn 2100. Mae llawer o ynysoedd iâ yr Antarctig ble maen nhw’n magu yn dadlaith a diflannu dan y don cyn bod y cywion sy’n deor yno’n tyfu plu ac yn medru nofio.

Yn gyfan gwbl, barn y gwyddonwyr yw y bydd tua 10% o’r holl rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion wedi diflannu erbyn 2050 ac y bydd wedi darfod am 27% o’r rhywogaethau o greaduriaid ag asgwrn cefn, y *vertebrata,* erbyn 2100.

### Cyfrifoldeb

Bydd rhai’n gofyn: Beth yw’r ots? Mae llyfr Genesis yn datgan yn glir un rheswm pam mae ots pryd adroddir i Dduw ddatgan wrth ddyn a gwraig: ‘Llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ac ar bopeth byw sy’n ymlusgo ar y ddaear ...’ Hynny yw, rhoddir i ni gyfrifoldeb dros barhad pob rhywogaeth byw. Os oes rhaid difa rhai anifeiliaid unigol am resymau da, rhaid sicrhau parhad y grŵp neu’r rhywogaeth. Maen nhw i gyd yn prydferthu’r cread, yn ennyn ein hedmygedd a’n rhyfeddod, ac yn cynnal y cadwynau byw sy’n fframwaith i fywyd cyfan ar ein planed, yn ein cynnwys ninnau.

Oes, mae problemau dyrys i’w datrys ym myd y ddynolryw – rhyfel, newyn, tlodi, gormes gwleidyddol. Ond llwm fydd ein byd os llwyddwn ni yn y dasg honno wrth golli’r brodwaith syfrdanol o amrywiaeth bywyd y cread o’n cwmpas.

A daw hynny â ni ’nôl at broblem tylluanod Gogledd yr Amerig. Beth yw’r ateb? Wel ... beth yw’ch barn chi?

**Robat Powell**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)

# Darlith Goffa

Yn encil y gweinidogion yn Nant Gwrtheyrn bydd y Parchg Ddr Alun Tudur yn traddodi darlith goffa Dr Pennar Davies a Dr R. Tudur Jones o dan y pennawd ‘Y Cyfnod Allweddol’. Traddodir y ddarlith am 7.30 nos Iau 18 Ebrill. (Gellir gwylio’r ffrwd byw trwy gyfrwng y ddolen hon: https://us02web.zoom.us/j/86419291720?pwd=OGI2OWhPVUhRZHgza3phaFlVNXpaQT09. Meeting ID: 864 1929 1720. Passcode: 792963)

Yn y ddarlith hon bydd Alun yn olrhain y newid fu yn natur y cyrff ymneilltuol yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a olygodd eu bod yn troi o fod yn sectau i fod yn enwadau. Roedd hon yn broses hir gyda nifer o elfennau yn cyfrannu tuag ati. Yn y ddarlith canolbwyntir ar ddisgyblaeth eglwysig a derbyn aelodau newydd.



**CAPEL PROVIDENCE, LLANGADOG**

Oedfa cyhoeddi’r gyfrol

**GWEDDÏO’R SALMAU**

gan y Parchg Euros Jones Evans
nos Wener, 3 Mai 2024,
am saith o’r gloch.

Llywydd: Y Parch. D. Aled Davies, Cyhoeddiadau’r Gair.

Ceir datganiadau cerddorol gan
Gôr Meibion Bois y Castell
Beti a Siân, Login
Ioan Morgan Anderson, Capel Seion
Darperir lluniaeth wedyn yn Neuadd Gymdeithasol, Llangadog

Croeso cynnes i bawb

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Capel Gellimanwydd, Rhydaman

# Apêl Ffynhonnau Byw

Cawsom wasanaeth hyfryd fore Sul 4 Mawrth wrth i ni ddathlu Gŵyl Dewi. Roedd yr oedfa yng ngofal plant yr ysgol Sul. Roedd y plant cynradd yn ein harwain mewn gweddi, hanes Dewi Sant a chyflwyno emynau.

Yna cawsom eitemau gan y plant lleiaf wrth iddynt ganu hwiangerddi cyfarwydd yn ogystal â chân am Dewi Sant. Gwnaeth ein gweinidog, y Parchg Emyr Gwyn Evans gyflwyno stori bwrpasol i'r plant cyn ein harwain yn y Cymun bendigaid. Yn ystod y gwasanaeth casglwyd £100 tuag at apêl Ffynhonnau Byw.

Roedd yn bleser a bendith cael bod yn bresennol.





### Cinio cawl

Yna ar ddydd Iau 7 Mawrth cynhaliwyd cinio Cawl a Chân bendigedig yn y neuadd. Unwaith eto diolch i bawb wnaeth gefnogi a gwneud yr achlysur yn gymaint o lwyddiant. Llwyddwyd i godi £540 tuag at apêl Ffynhonnau Byw. Roedd yn hyfryd gweld y neuadd yn llawn gyda dros 60 ohonom yn mwynhau'r wledd oedd wedi ei pharatoi gan Maria, Catherine a Helen. Mae ein diolch yn arbennig iddynt gan eu bod wedi rhoi cawl a'r pice ar y maen i bawb am ddim.

Wedi'r bwyd blasus cawsom ein diddanu gan y pâr amryddawn Keri Morgan ac Eifion Price. Roedd pawb wedi gwir fwynhau prynhawn hwyliog llawn hwyl a chefnogi achos arbennig ar yr un pryd. Diolchodd ein gweinidog i bawb am ei wneud yn achlysur mor llwyddiannus.

# Siloam, Talwrn – Ffynhonnau Byw

Bu plant a phobl ifanc yr ysgol Sul yn brysur yn cynnal gwasanaethau er mwyn casglu arian ar gyfer Apêl Ffynhonnau Byw. Ym mis Gorffennaf, cafwyd gwasanaeth arbennig gan y plant am fywyd a gwaith yr Iesu. Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch fore Sul, 15 Hydref gan y plant a'r bobl ifanc. Miss Sara Roberts oedd wedi trefnu'r gwasanaeth a hi hefyd oedd yn eu harwain. Cyflwynodd plant a phobl ifanc yr ysgol Sul ddrama'r geni ar bnawn Sul, 17 Rhagfyr, sef *Cnoc, cnoc, cnoc*, a chafwyd gwasanaeth ardderchog ganddynt. Rhwng y tair oedfa llwyddwyd i godi £181 o bunnau i Apêl Ffynhonnau Byw.



*Gwasanaeth Diolchgarwch, Hydref 2023*



*Chwith: Cnoc, cnoc, cnoc – drama'r geni Nadolig 2023*



**Dydd Sul, Mai 19eg, 2024 am 2.00**

## Tabernacl – Hendy-gwyn Oedfa i ddathlu 150 mlynedd

Pregethwr gwadd –
Parch. Dyfrig Rees

Croeso cynnes i bawb

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*